



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre nos Fawrth, 21 Tachwedd 2017 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room on Tuesday, 21 November 2017 at 6.00pm.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Clive Davies (*yn y gadair/in the chair*), Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Siân Maehrlein, Catrin Miles (*cyrhaeddodd am/arrived at 7.00pm*), Yvonne O’Neill.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs John Adams-Lewis, Elaine Evans, Richard Jones, Wyn Jones, Steffan Morgan.

Croeso’r Cadeirydd / Chair’s welcome

Yn absenoldeb y Maer a’r Dirprwy Faer, croesawodd y cyn-Faer, y Cyng. Clive Davies, bawb i’r cyfarfod.

In the absence of the Mayor and the Deputy Mayor, the immediate past Mayor, Cllr Clive Davies, welcomed all to the meeting.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A171018-19	Cardigan Castle, Bridge Street	<i>I newid llawr uchaf y stablau i mewn i lety gwyliau hunanarlwyo a chreu ardal lobi yn y llawr gwaelod i gadw at reolau tân.</i> To change the top floor of the stables block into self-catering holiday accommodation and create a lobby area in the bottom floor to adhere to fire regulations.	<i>Mae’r cyngor yn cefnogi’r cais.</i> The council supports the application.

Datgan diddordeb / Declaration of interest: Y Cyng. / Cllr Clive Davies

Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field

- (a) **Comisiwn Elusennau:** Mae’r clerwr wedi anfon llythyr at y Comisiwn yn gofyn am gyngor ynglŷn â diweddarau’r “Scheme” sydd yn berthnasol i’r maes chwarae.

The clerk has written to the Charity Commission requesting updating the “Scheme” pertaining to the field.

Cae Chwarae Pentop / Pentop Playing Field

Cyfarpar chwarae / Play equipment.

Gwnaed cais at gwmni arbenigol am gyfarpar i’r cae chwarae.

An application has been submitted to a specialist company for a quotation for play equipment for Pentop.

Mae’r Cyng. Catrin Miles wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth gwmni Sutcliffe Play Cyf. am gynnwys offer chwarae i’r maes. Bydd yn cydweithio gyda Ms Cathryn Morgan, swyddog Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf y cyngor sir, ynghylch grantiau.

Cllr Catrin Miles has discussed play equipment for the field with Sutcliffe Play Ltd. She will liaise with Ms Cathryn Morgan, Families First Coordinator officer with the county council, regarding grant applications.

Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

- (a) **Coeden Nadolig. Caiff ei gosod tu allan i Neuadd y Dref ar fore Sadwrn, 25 Tachwedd am 8.00yb.**
The tree will be delivered and set in place outside the Guildhall on Saturday, 25 November at 8.00am.
- (b) **Ffenestr Nadolig orau (2/12/17): Mae'r darian wedi ei hysgythru gydag enw enillydd 2016 (Bragdy Barista) ac mae'n barod i'w chyflwyno.**
Best Christmas Window (2/12/17): The shield has been inscribed with the 2016 winner (Bragdy Barista) and is ready for presentation.
Beirniaid: Awgrymwyd gan y Cyng. Clive Davies enwau Mrs Eleri Lewis (Antur Teifi) a Cilla neu George (Marchnad Aberteifi). Cytunwyd bod y Cyng. Davies yn cysylltu â hwy.
Judges: It was suggested by Cllr Davies that Mrs Eleri Lewis (Antur Teifi) and Cilla and George (Market Traders) be appointed as judges. Cllr Davies agreed to contact the three appointees.
- (c) **Cynnau'r goleuadau Nadolig / Switch-on of Christmas lights.**
2 Rhagfyr / December, 4.30pm.
- (d) **Uchel seinydd (symudol) / Sound system (mobile).**
Awgrymwyd bod y clerc yn prynu uchel seinydd symudol oddi wrth gwmni "Astounded" ar y we tan reol 27 Rheolau Sefydlog am £169 er mwyn ei ddefnyddio at achlysuron y Nadolig. Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies. Awgrymodd y clerc ofyn am gyngor technegol y Cyng. Wyn Jones ynglŷn â'r cyfarpar cyn ei brynu. Dywedodd y Cyng. Yvonne O'Neill bod ganddi corn sain uchel i'w ddefnyddio ar fyr rybudd.
It was recommended that the clerk purchases a mobile unit from "Astounded" (on-line company) under Standing Order No. 27 for £169 in order for the system to be used for festive events. Proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Clive Davies. The clerk suggested seeking technical advice from Cllr Wyn Jones before purchasing. Cllr Yvonne O'Neill stated that she possessed a loud hailer which could be used in an emergency.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- (a) **Gwasanaeth bysiau ar y Sul / Sunday bus service (Cais y Cyng./ Request from Cllr Wyn Jones). Yn absenoldeb y Cyng. Jones, cytunwyd gosod y mater ar agenda cyfarfod llawn Rhagfyr.**
With the absence of Cllr Jones, it was agreed to place the item on the December full council agenda.
- (b) **Gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llandudoch ynglŷn â chostau'r Gofrestrfa Tir.**
Correspondence from St Dogmaels Community Council regarding Land Registry fees on the area discussed which is relevant to the improvement of the safer route from Cardigan to St Dogmaels.
Argymhellwyd bod Cyngor Tref Aberteifi yn talu 50% o gostau'r Gofrestrfa Tir.
It was recommended that Cardigan Town Council pays 50% of the Land Registry costs.
- (c) **ATC: Achwyniad bod aelodau o'r band wedi derbyn tocyn parcio ar fore Sul y Cadoediad.**
Complaint that band members of the ATC had received a parking ticket at the Guildhall car park on Remembrance Sunday morning.
Awgrymwyd i'r Cyng. Catrin Miles wneud ymholiadau gyda'r cyngor sir ynglŷn â'r penderfyniad anffortunus yma.
It was recommended that Cllr Catrin Miles contacts the county council regarding this unfortunate action.
- (d) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill: Datganiad / Statement re. Cardigan Youth Services (Young Carers).**
Awgrymwyd bod y Cyng. O'Neill yn gwneud ymholiadau gyda Choleg Ceredigion i hurio neuadd "Y Man a'r Lle" i gynnal gweithgareddau gyda'r gofalwyr ifainc. Cynghorwyd y Cyng. O'Neill i gysylltu â Mrs Jane Roche am gyngor ynglŷn â noson wobrwyo'r Cyngor Ieuenctid.
It was recommended that Cllr O'Neill contacts Coleg Ceredigion regarding the hiring of "Y Man a'r Lle" venue to organise meetings/events with the young carers. Cllr O'Neill was advised to contact Mrs Jane Roche for advice regarding the Youth Council awards scheme.
- (e) **Dywedodd y Cyng. Graham Evans bod y gwregus achub a leolir ar gei Tywysog Siarl wedi diflannu. Awgrymwyd bod y cyngor sir yn ei ail-leoli mewn safle mwy diogel.**
Cllr Graham Evans stated that the lifebelt located at Prince Charles quay had disappeared. It was recommended that the county council replaces the equipment in a safer location.

Gwahoddiad i'r Maer / Invitation to the Mayor

Parkinson's Society: Gwahoddiad i'r Maer / Invitation to the Mayor
Cinio Nadolig, Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn, 19 Rhagfyr, 12.00-12.30yp.
Christmas Dinner, Newcastle Emlyn RFC, 19 December, 12.00 for 12.30pm.
Bydd y Dirprwy Faer yn cynrychioli'r cyngor yn y ginio.
The Deputy Mayor will represent the council at the dinner.

Er gwybodaeth / For information

RNLI – Ffair Nadolig / Christmas Fair, Cliff Hotel, 15 Tachwedd / November, 10.00am.

Cynnau'r Goleuadau Nadolig: Tu allan i Neuadd y Dref, 2 Rhagfyr am 4.30yp.
Switch-on of Christmas lights: Outside the Guildhall, 2 December at 4.30pm.

Parêd Llusernau: 8 Rhagfyr, 7.00yh.
Lantern Parade: 8 December, 7.00pm.

RNLI – Gwasanaeth Carolau / Christmas Carol Service, St Thomas' Church, St Dogmaels, 17 Rhagfyr / December, 6.30pm.

Bydd y Dirprwy Faer yn darllen rhannau o'r ysgrythur yn y gwasanaeth.
The Deputy Mayor will undertake a reading at the service.